## ATODLEN 6

Rheoliadau 7 ac 8

### FFURF GORCHYMYN SY'N DIWYGIO GORCHYMYN RHEOLI CŴN

**1** Bydd gorchymyn sy'n diwygio gorchymyn rheoli cŵn yn y ffurf a roddir isod, neu mewn ffurf sy'n sylweddol gyfatebol.

**2** Pan fo'r disgrifiad o'r tramgwydd yn cael ei ddiwygio, rhaid gwneud y diwygiad drwy dynnu allan yr erthygl gyfan sy'n gosod y tramgwydd, a bydd yr erthygl a roddir i mewn yn ei lle yn gosod i lawr y tramgwydd fel y byddai'n ofynnol ei ddatgan petai yn cael ei gynnwys mewn gorchymyn rheoli cŵn sy'n cael ei wneud o'r newydd.

*Ffurf y Gorchymyn*

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) 2007 (OS 2007/702 (W.59)

Gorchymyn 702 (W.59)(**1**) (Diwygio) [X](**2**)

Mae [X](**3**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**1** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar [X](**4**).

**2** Diwygir [XXXX](**5**) fel a ganlyn:

[mewnosoder y diwygiadau](**6**).

[Dyddiad]

[Cymal ardystio]

(**1**) Mewnosoder enw llawn (gan gynnwys blwyddyn gwneud) y Gorchymyn sydd i'w ddiwygio.
(**2**) Mewnosoder flwyddyn gwneud y Gorchymyn diwygio.
(**3**) Mewnosoder enw'r awdurdod cyntaf neu'r awdurdod eilaidd sy'n gwneud y Gorchymyn.
(**4**) Mewnosoder y dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym arno, sef o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y Gorchymyn.
(**5**) Mewnosoder enw llawn (gan gynnwys blwyddyn gwneud) y Gorchymyn sydd i'w ddiwygio.
(**6**) Er enghraifft: "Yn lle [Paragraff X o] Erthygl [X] rhodder [y paragraff / yr Erthygl] a ganlyn:…", "ar ôl y geiriau [X] mewnosoder y geiriau a ganlyn: " yn lle "[X]", rhodder y geiriau "[X]"", etc.].